

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 22 Ebrill 2015 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1- 12 ar 25 Mawrth 2015 yn rhai cywir.

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (1) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Gadeirydd Pwyllgor Materion Trwyddedu (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Fox)**

“A wnewch chi ddatganiad ar waith y Pwyllgor Materion Trwyddedu?”

- (2) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Fox i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

“A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad am y buddsoddi sy'n digwydd yn y priffyrdd?”

- (3) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Elliott i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

“A wnaiff yr Arweinydd roi'r diweddara'f yn ôl â hynt y gwaith ar y Lido ym Mhontypridd?”

- (4) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Davies i Gadeirydd Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Stacey)**

“Beth fu'r newid mwyaf sylweddol yng nghyfrifoldebau ac ymddygiad Aelodau o'r Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf, o ran ei statws rheoleiddio?”

- (5) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol I.Pearce i Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.K.Turner)**

“Pa mor amryfal yw gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Craffu?”

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Ail-benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** 13 – 14

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

- 8 Rhybudd o Gynnig – Cyngor 4 Mawrth, 2015 –** 15 - 20

Adroddiad dros dro Gweithgor Craffu ar "Dlodi Tanwydd"

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

- 9 Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol – Ymateb y Comisiwn Ffiniau** 21 – 36

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

- 10 Ymgynghoriad – Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol** 37 - 58

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

11 RHYBUDD O GYNNIG

- (1) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, S.Rees-Owen, M.Weaver, C.Davies, I.Pearce, E.Webster, S.Evans-Fear a K.Morgan:-

"Bod y Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei fod yn gwerthfawrogi gwaith staff rheng-flaen ein gwasanaeth Ambiwlans, Diffoddwyr Tân a Swyddogion gweithredol yr Heddlu y mae gyda ni gyfrifoldebau Cynllunio ar gyfer Argyfyngau ar y cyd â nhw.

Mae'r Cyngor hwn yn rhoi addewid y bydd yn cydweithredu mewn unrhyw ffordd bosibl, o fewn y pŵer sydd ganddo, i gefnogi a chynorthwyo yngŷn â gwella a chynnal y gwasanaethau cyhoeddus allweddol hyn.

Gan hynny, bydd y Cyngor hwn yn cynnull Cynhadledd Parchwch eich Gwasanaeth Cyhoeddus, a chaiff trigolion y Sir wahoddiad iddo.

Bydd y Cyngor yn gwahodd cynrychiolwyr o blith yr holl wasanaethau brys ac annerch y gynhadledd ar y materion pwysig a wnelo â darparu gwasanaeth effeithlon yn y dyfodol."

- 12 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:** 59 -66


"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac

aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraffau 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf."

13 Swydd y Prif Weithredwr a Materion Cysylltiedig

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig

14 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At sylw: Pob aelod o'r Cyngor

15 Ebrill 2015